

# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

EL(3) 19 – 09 (p1) : 30 Medi 2009

## Y Pwyllgor Menter a Dysgu

### Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

#### Diben

1 Mae'r papur hwn yn cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Dysgu ar gyfer ei ymchwiliad i'r polisi a'r fframwaith ar gyfer *Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*<sup>1</sup>. Mae'n amlinellu'r cynnydd sydd wedi'i wneud dros y deuddeng mis diwethaf wrth weithredu'r agenda gan amlinellu ymatebion i'r polisi oddi wrth Bartneriaethau Dysgu. Yn ogystal, mae'n crynhoi'r patrwm o ddarpariaeth sy'n ymddangos; y cymorth a ddarperir i randdeiliaid wrth ddatblygu cynigion trawsnewid; ac alinio ac integreiddio polisi ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC).

#### Cefndir

2. Mae tystiolaeth yn awgrymu fod y trefniadau cyfredol ar gyfer cyflenwi dysgu ôl-16 yn annhebygol o gynnal y trawsnewid dysgu sydd ei angen ar Gymru. Cydnabyddir hyn yn ein strategaeth cyflogaeth a sgiliau, *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*, lle nodir bod trawsnewid sylfaenol yn y ddarpariaeth dysgu ôl-16 yn flaenoriaeth allweddol. Yn ein polisi, *Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*, fe awgrymwyd fframwaith cenedlaethol i gefnogi trawsnewid y rhwydwaith darparwyr yng Nghymru gan wahodd cynigion mewn ymateb i'r angen am newid. Gofynnwyd i ddarparwyr dysgu archwilio patrymau cyflenwi ac ystyried cynllunio tymor hirach gyda golwg ar y ddemograffeg ddisgynnol yng Nghymru a'r gostyngiad yn y nifer o bobl ifanc sy'n dechrau eu haddysg ar draws Cymru.
3. Roedd y polisi'n herio'r holl ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru i roi'r gorau i drefniadau traddodiadol, cul, sefydliadol a chynllunio darpariaeth ar y cyd; cyfeirio mwy o'r cyllid sydd ar gael at addysgu a dysgu a chefnogaeth i'r dysgwyr; a thrawsnewid y rhwydwaith o ddarparwyr er mwyn:
  - sicrhau bod ystod lawn o opsiynau dysgu ar gael i fyfyrwyr 14-19 mewn ffordd sy'n paratoi pobl ifanc ar gyfer yr amrediad llawn o lwybrau sydd ar agor iddynt<sup>2</sup>;
  - cael gwared ar ddyblygu darpariaeth yn ddiangen;
  - sicrhau mai rhagoriaeth, ar draws rhwydweithiau darparwyr, yw'r norm.

---

<sup>1</sup> Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, lansiwyd ym mis Medi 2008 – ar gael ar:

<http://wales.gov.uk/dcells/publications/publications/guidanceandinformation/deliveringskillsworkforwales/transformingprovisionwales?lang=en>

<sup>2</sup> Er enghraifft hybu cyrsiau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianwaith a mathemateg); darpariaeth alwedigaethol ac ieithoedd tramor modern.

4. Yng ngoleuni diwylliant ac ethos unigol rhannau o Gymru, cynlluniwyd y fframwaith trawsnewid i annog rhanddeiliaid i ddatblygu datrysiadau lleol i ddiwallu anghenion lleol yn hytrach nag un model i bawb ar draws Cymru. O ganlyniad, nid oedd y polisi yn rhagnodi un model penodol. Felly, er enghraifft mae'r fframwaith trawsnewid yn disgwyl bod systemau trydyddol yn cael eu datblygu ar draws Cymru ond nid yw'n rhagnodi y dylai hyn ddigwydd drwy greu sefydliadau trydyddol unigol nag unrhyw fodel sefydliadol penodol arall. Yn wir gellir sicrhau'r buddion drwy drefniadau sefydliadol newydd, neu drwy gydweithio cryfach rhwng sefydliadau cyfredol, yn ôl dewis y rhanddeiliaid lleol.
5. Disgwylir y bydd gweithredu'r polisi hwn yn cyflenwi buddion ar ffurf gwell effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a hyblygrwydd cynyddol; mwy o rwydweithio traws-sector rhwng ac ar draws yr holl sectorau cyflenwi; uno Sefydliadau Addysg Bellach; a datblygu trefniadau trydyddol ôl-16.
6. Mae'r polisi trawsnewid yn ategu'r Mesur Dysgu a Sgiliau. Yn yr un modd mae'n anelu at ddarparu dewis ehangach i'r dysgwr, lleihau dyblygu darpariaeth yn ddiangen, ac annog dysgu ac addysgu o ansawdd uwch; ond mae'n gymwys ar gyfer pob darpariaeth ôl-16. Nid oes modd i un darparwr unigol ddiwallu'r amcanion hyn i gyd. O ganlyniad disgwylir i ddarparwyr sefydlu cydweithio effeithiol i danategu hawliau 14-19 ac uchafu tebygolrwydd canlyniadau dysgu llwyddiannus.

### **Patrwm y Ddarpariaeth**

7. Ymatebodd rhanddeiliaid i'r polisi drwy gyflwyno, ym mis Ionawr a Mawrth 2009, cynigion amlinellol i weithredu'r trawsnewid. Ceir crynodeb o batrwm y ddarpariaeth sy'n ymddangos o'r cynigion hyn yn **Atodlen A**; ac mae rhai o'r rhain yn uchelgeisiol ac yn arwyddo newidiadau pellgyrhaeddol. Mae gan y datblygiadau a gynigir, os cânt eu gweithredu, y potensial i uchafu cyfleoedd i ddysgwyr, gwella ansawdd y profiad dysgu a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer busnes. Mae'r cynigion yn cwmpasu pob ardal awdurdod lleol a sefydliad addysg bellach yng Nghymru ac yn manylu cyfeiriad y newid a ddewiswyd.
8. Mae'r cynigion yn ymrannu'n bum prif gategori. Datblygu consortia ysgol / sefydliad addysg bellach; cynigion i uno'r holl ddarpariaeth dysgu o fewn ardal ddaearyddol; uno colegau addysg bellach; aildrefnu ysgolion uwchradd a gynhelir â chysylltiadau ffurfiol â darparwyr dysgu eraill; a mentrau sectoraidd/sgiliau Cymru gyfan.
9. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â phob awdurdod lleol, a'r holl ddarparwyr dysgu i sicrhau newid trawsnewidiol sylweddol yn llwyddiannus ar draws Cymru. Fodd bynnag bydd yr amserlenni gweithredu llawn yn amrywio yn unol â graddfa a gofynion adnoddau'r cynlluniau a bydd hefyd yn dibynnu ar yr angen am, a chanlyniadau, unrhyw drefniadau statudol. Serch hynny, disgwylir y dylai 60% o'r Partneriaethau Dysgu fod yn gweithredu modelau newid cymeradwy erbyn mis Medi 2010 gyda'r 40% arall yn weithredol erbyn mis Medi 2011.

10. Bydd y materion canlynol yn cael eu hystyried yn llawn wrth symud y newidiadau sy'n angenrheidiol i sicrhau gwelliannau sylweddol i ddysgwyr yn eu blaen.

## **Siâp y Ddarpariaeth**

11. Mae nifer o'r cynigion yn arwyddo newid sylweddol yn y modd y cyflenwir dysgu<sup>3</sup> ac o'r rhain mae nifer wedi'u datblygu'n sylweddol. Er enghraifft disgwylir y bydd yr uno rhwng Colegau Abertawe a Gorseinon a hefyd Cymdeithas Addysg y Gweithwyr a Choleg Harlech yn digwydd yn 2010, gyda'r uniadau eraill yn dilyn yn 2010-11. Yn amodol ar gynnal y broses statudol ar gyfer terfynu chweched dosbarth mewn ysgolion a'i chanlyniadau, mae Parth Dysgu arfaethedig Blaenau Gwent yn dod i ddiwedd y cyfnod datblygu ac yn ddiweddar cyflwynwyd Achos Busnes Amlinellol gan Bartneriaeth Dysgu Merthyr Tudful i sicrhau cymorth ar gyfer Ardal Ddysgu Merthyr.
12. Mae nifer o awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar gynigion ar gyfer aildrefnu ysgolion uwchradd; gyda nifer o awdurdodau lleol yn nodi nad ydynt am gynnal y statws quo yn nhermau'r nifer o ysgolion uwchradd. Mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol yn arwyddo ymrwymiad i gael gwared ar gynllunio a chyflenwi darpariaeth ôl-16 yn ynysig mewn ysgolion uwchradd 11-18 oed a gynhelir; ac mae APADGOS yn ystyried gweithgaredd i alinio aildrefnu ysgolion yn llwyr gyda thrawsnewid cyflenwi ôl-16.
13. Rhoddir lle amlwg i'r agenda sgiliau yn nifer o'r cynigion, gyda rhanddeiliaid yn awyddus i archwilio trefniadau ar gyfer gwella cyflenwi dysgu yn seiliedig ar waith.
14. Mae gan y cynigion i uno darpariaeth ôl-16 y potensial nid yn unig i yrru newid addysgol, ond hefyd adfywiad economaidd a chymdeithasol. Mae cynigion o'r fath yn arwyddo'r posibilrwydd o uchafu presenoldeb addysgol ac arweiniad strategol mewn ardal. Mae hyn yn benodol yn wir am ardal Blaenau'r Cymoedd lle mae gan gynlluniau trawsnewid Blaenau Gwent a Merthyr Tudful y potensial i wella cyfleoedd bywyd pobl ifanc yn ddramatig; gwella mynediad at addysg uwch a phellach; a chyflenwi'r sgiliau a'r hyder angenrheidiol i gymunedau wneud cyfraniad sylweddol i gymdeithas a gwaith.

## **Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg**

15. Caiff addysg cyfrwng Cymraeg, a gyflenwir mewn lleoliadau trefol a gwledig, ei hystyried yn llawn wrth gytuno ar gynlluniau trawsnewid lleol a sectoraidd. Er nad yw'r polisi yn rhagnodol yn nhermau'r model y gellir ei fabwysiadu, disgwylir i awdurdodau lleol a darparwyr dysgu eraill roi ystyriaeth i'r gofyniad i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhellach yng nghyd-

---

Blaenau Gwent, Powys, Merthyr Tudful, Torfaen, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion; ac uno Coleg y Bari a Choleg Glan Hafren; Colegau Gorseinon ac Abertawe, Colegau Glannau Dyfrdwy a Lllysfasi, gyda chysylltiadau ffurfiol â Choleg Iâl, CAG De a Choleg Harlech; Coleg Meirion Dwyfor a Choleg Llandrillo, gyda chysylltiadau â Phrifysgol Bangor

destun y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg<sup>4</sup> a'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)<sup>5</sup>. Cydnabyddir y bydd hyn yn her sylweddol i rai awdurdodau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

16. Aseswyd effaith posibl cynigion trawsnewid ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn llawn yn ystod gweithdrefnau arfarnu'r cynigion gan Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Wrth i'r cynigion gael eu datblygu bydd Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau fod darparwyr ac awdurdodau lleol yn cymryd camau priodol i sicrhau gwelliannau yn y nifer a'r mathau o raglenni dysgu sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
17. Ymhellach, bwriad APADGOS yw sefydlu Fforymau Rhanbarthol ar gyfer darparwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sy'n gyfrifol am gyflenwi'r agendâu 14-19 a thrawsnewid. Mae un fforwm o'r fath eisoes wedi'i sefydlu yn y gogledd a bydd y ddau arall yn y de orllewin a'r de. Bydd pob fforwm yn cael ei arwain gan bwyllgor llywio fydd yn gynrychioliadol o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn y rhanbarth.
18. Bydd pwyllgor llywio pob Fforwm yn dynodi'r tasgau allweddol sydd angen eu cyflawni er mwyn cyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn llwyddiannus yn eu hardaloedd penodedig mewn perthynas â'r agendâu 14-19 a thrawsnewid. Bydd y tasgau penodol yn amrywio yn ôl anghenion penodol eu rhanbarth. Nod cyffredinol pob Fforwm fydd hwyluso cydweithio ar draws ffiniau sirol rhwng darparwyr addysgol er mwyn cyflenwi gwell cyfleoedd i ddysgwyr o fewn y gyllideb sydd ar gael.
19. Ar hyn o bryd mae rhai darparwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn gweithredu ar draws ffiniau sirol er mwyn cyflenwi'r agenda 14-19. Er bod partneriaethau llwyddiannus iawn ar hyn o bryd rhwng sefydliadau unigol â'i gilydd, mae datblygiadau traws-sirol yn fwy cyfyng ac ar hyn o bryd nid oes strwythurau ffurfiol i alluogi darparwyr i rannu gwybodaeth, adnabod arfer da na chydlynu cynllunio. Mae'r Fforymau Rhanbarthol 14-19 i ddarparwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn gam hanfodol i hwyluso datblygu'r agenda 14-19 a thrawsnewid mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

## **Ardaloedd Gwledig**

20. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod yr heriau penodol sydd yn anochel wrth ddarparu ystod lawn o ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig. Mae llawer o ddarparwyr dysgu yn wasgaredig ac mae hyn yn effeithio ar allu ysgolion a cholegau i gyflawni cydweithio buddiol yn rhwydd. Fodd bynnag, mae angen ehangu mynediad at ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig a sicrhau fod gan ddysgwyr gwledig gyfleoedd i symud ymlaen i addysg bellach ac uwch. Bydd APADGOS yn gweithio gyda darparwyr lleol i wella cyfleoedd dysgu ac annog mabwysiadu trefniadau cydweithredol ffurfiol fydd

---

<sup>4</sup> Nod y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yw datblygu darpariaeth effeithiol o oedran meithrin i addysg bellach ac uwch, drwy ddatblygu a gwella cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan felly sicrhau fod y ddarpariaeth yn diwallu'r galw cynyddol am ddysgu drwy'r iaith.

<sup>5</sup> Nod Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yw gyrru gweithrediad Llwybrau Dysgu 14-19. Mae'n esbonio ein hymagwedd at ddarpariaeth 14-19. Bydd y Mesur yn sicrhau bod dewis ehangach ar gael i rai 14-19 oed mewn ysgolion a cholegau.

er budd dysgwyr a chyflogwyr. Yn yr un modd, bydd pwyslais ar uchafu'r defnydd o ddatrysiadau Technoleg Gwybodaeth modern i gyflenwi darpariaeth mewn ardaloedd gwledig.

## **Darpariaeth Chweched Dosbarth mewn Ysgolion a Gynhelir**

21. Mae hanner ardaloedd awdurdod lleol Cymru yn dymuno mabwysiadu ymagwedd at drawsnewid fydd yn cadw trefn, ethos a diwylliant chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir a chyflenwi gwell effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac ymatebrwydd yn y ddarpariaeth ôl-16 drwy sefydlu cysylltiadau ffurfiol â sefydliadau addysg bellach lleol<sup>6</sup>. Byddai trefniadau o'r fath yn golygu cytundeb dan y ddau reoliad newydd: Rheoliadau Trefniadau Cydlafurio (Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach) (Cymru) 2008 a Rheoliadau Cydweithio rhwng Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2008. Mae'r trefniadau hyn yn ffurfiol ond yn wirfoddol ac yn darparu newid sylweddol o'r cydweithio llac ac anffurfiol cyfredol. Yn ogystal, bydd y Rheoliadau Ffederasiwn Ysgolion a Gynhelir, pan gânt eu cyflwyno, yn caniatáu i ysgolion ffederaleiddio dan un corff llywodraethu.
22. Os yw awdurdodau lleol yn cynnig uno'r holl ddarpariaeth dysgu, neu wella darpariaeth drwy aildrefnu, bydd angen iddynt ystyried eu cyfrifoldeb wrth gynllunio a chyflenwi llefydd mewn ysgolion, gan gynnwys y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dylid ystyried y galw am lefydd mewn ysgolion ffydd hefyd.
23. Sefydlwyd grŵp tasg a gorffen i ystyried datblygu fframwaith cenedlaethol i arwain Partneriaethau Dysgu wrth sefydlu'r consortia cydweithredol hyn i wella effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a hyblygrwydd wrth gyflenwi dysgu ôl-16. Bydd y grŵp yn ystyried: y trefniadau deddfwriaethol a gwirfoddol a fyddai'n cefnogi gweithio consortiwm llwyddiannus; cryfderau a gwendidau trefniadau consortia cyfredol; ac argymell fframwaith i arwain datblygiad cyson consortia fel bod y model yn gallu cyflenwi buddion tebyg i'r rheini a ddisgwylir drwy gyd-drefniadau mwy radical. Bydd y grŵp yn adrodd ym mis Tachwedd gydag argymhellion ynglŷn â'r ffordd orau i gyflawni datblygiadau consortia a bydd yn darparu canllawiau fframwaith ar gyfer cyfarwyddo rhanddeiliaid.
24. Yn olaf, mae cynlluniau nifer o awdurdodau lleol, colegau a phrifysgolion i drawsnewid darpariaeth addysg a hyfforddiant eisoes wedi'u datblygu'n sylweddol. Gallai'r datblygiadau sydd ar waith ers tro i greu campws dysgu i Flaenau Gwent ac aildrefnu arfaethedig addysg ôl-16 yn Nhorfaen gynnig cyfleoedd trawsnewidiol cynnar ar gyfer buddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth y Cynulliad. Ymhellach, disgwylir y bydd yr uno arfaethedig rhwng Coleg Meirion Dwyfor a Choleg Llandrillo; Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Llysfasi; Coleg Abertawe a Choleg Gorseinon; a Choleg y Bari a Choleg Glan Hafren yn yr un modd yn derbyn buddsoddiad buan i gefnogi'r gweithredu. Mae pob un o'r cynigion hyn yn cynrychioli datblygu arferion gorau dan yr agenda

---

Y bwriad yw sefydlu trefniadau llywodraethu ar y cyd rhwng yr ysgolion, neu rhwng ysgolion a'r sefydliad(au) addysg bellach. Bydd y cydbwyllograu yn cael eu ffurfio yn bennaf o blith y cyrff llywodraethu perthnasol, ond argymhellir yn gryf yn y rheoliadau y dylid recriwtio aelodau annibynnol o'r pwyllgor. Byddai'r cyd-bwyllgor yn derbyn pwerau dirprwyedig i gynllunio cyflenwi dysgu ôl-16 ar gyfer y rhwydwaith.

trawsnewid a bydd taith y prosiectau 'llwybr carlam' hyn yn cael ei rhannu drwy Gymru, wrth iddynt gael eu gweithredu.

### **Adolygiad o Addysg Uwch**

25. Mae'r Adolygiad o Addysg Uwch yng Nghymru wedi amlygu'r rôl bwysig y gall addysg bellach ei chwarae wrth gyflenwi a hyrwyddo addysg uwch yng Nghymru, fel y'i cyflwynwyd yn ddiweddar mewn papur i'r Pwyllgor Menter a Dysgu ar 2 Gorffennaf 2009. Mae'r agenda trawsnewid yn cyd-fynd yn llwyr â'r Adolygiad, gan ategu ei weledigaeth ar gyfer sector addysg uwch wirioneddol integredig, lle mae prifysgolion yn gweithio gyda'r llywodraeth, darparwyr addysg uwch eraill a cholegau addysg bellach, i gyflenwi buddion diriaethol i Gymru.
26. Mae angen ystyried ffurffweddiad darpariaeth dysgu yn y dyfodol yng nghydestun cymuned addysg uwch eang a gydlynol i Gymru, lle mae prifysgolion yn gweithio'n systematig gyda cholegau addysg bellach, cyflogwyr a'r Cynghorau Sgiliau i sicrhau bod mynediad at addysg uwch yn cael ei ddarparu'n eang gyda rhagoriaeth drwy Gymru. Mae darparu addysg uwch lleol a hyblyg yn hanfodol ar gyfer tanategu ein hymdrechion i ehangu mynediad a gwella lefelau sgiliau yng Nghymru.
27. Mae ymglymiad sefydliadau addysg uwch yn yr agenda trawsnewid yn hanfodol ar gyfer darparu llwybrau dilyniant i lefel 4 a hyfforddiant sgiliau uwch. Mae nifer o sefydliadau addysg uwch wedi bod yn chwaraewyr allweddol wrth ddatblygu cynlluniau trawsnewidiol cymhleth, er enghraifft Ardal Ddysgu Merthyr a Pharth Dysgu Blaenau Gwent. Mae'r ymagwedd hon i'w chanmol.
28. Cyfeiriodd yr Adolygiad Addysg Uwch hefyd yn benodol ar rôl bwysig Graddau Sylfaen a rôl sefydliadau addysg bellach wrth eu cyflenwi. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i hybu'r cymhwyster hwn a'i rôl bwysig wrth fynd i'r afael â sgiliau lefel technegydd a rheoli yng Nghymru. Awgrym yr Adolygiad yw mai pwysu bynnag sydd yn y sefyllfa orau i gynnig y lefel, natur ac ansawdd priodol o ddarpariaeth ddylai fod yn cyflenwi Graddau Sylfaen. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r ymagwedd hon yn llwyr ac eisoes yn gweithio i ddatblygu polisi strategol ar gyflenwi Graddau Sylfaen. Y nod yw adeiladu ar bartneriaethau cyfredol rhwng sefydliadau addysg bellach ac uwch, cyflogwyr a'r cynghorau sgiliau sector i ddatblygu Graddau Sylfaen gyda phwrpas cyflogaeth, a llwybrau dilyniant priodol at addysg uwch.
29. Mae ymglymiad sefydliadau addysg uwch â cholegau addysg bellach yn parhau yn allweddol i gyflenwi'r agenda trawsnewid ar draws Cymru. Er enghraifft, mae datblygiad y ddarpariaeth addysg uwch ym Mlaenau'r Cymoedd sydd wedi'i alinio â datblygiadau trawsnewid arfaethedig ym Mlaenau Gwent, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen, yn gam mawr i'r ardal wrth ehangu mynediad a chodi'r sail sgiliau.

### **Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru**

30. Bwriad Llywodraeth y Cynulliad yw adolygu, ac os oes angen, diwygio trefniadau llywodraethu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. I'r perwyl hwn, sefydlwyd Grŵp Adolygu i ganfod sut i ddatblygu trefniadau i hybu gwell cydweithio, cydweithredu ac integreiddio rhwng ysgolion a sefydliadau addysg bellach drwy werthuso ac awgrymu newidiadau i'r trefniadau llywodraethu presennol.
31. Mae angen sicrhau fod y trefniadau llywodraethu ar gyfer ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn berthnasol ac y gallant gyfrannu at ddatblygiad parhaus sector addysg bellach a chweched dosbarth lwyddiannus a bywiog. Dylai'r trefniadau hyn sicrhau fod ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn gweithredu ar y cyd, a'u bod yn gwbl ymrwymedig i agenda Cymru gyfan o wella sgiliau, sicrhau fframwaith o ddarpariaeth lle gall yr holl ddysgwyr gael mynediad at gwricwlwm galwedigaethol ac academiaidd eang a pherthnasol; ehangu cyfranogiad i genedlaethau newydd o fyfyrwyr a sicrhau dilyniant i addysg uwch. Caiff y polisi Trawsnewid ei ystyried yng nghydestun telerau'r adolygiad, gan sicrhau ystyriaeth ddyledus i fodolau llywodraethu cyfredol a newydd a threfniadau gweithio ar y cyd.

### **Dysgu Seiliedig ar Waith**

32. Bydd y cylch contractio nesaf ar gyfer rhaglenni olynu Dysgu Seiliedig ar Waith yn gosod y fframwaith ar gyfer trawsnewid y sector dysgu hon, gan ganolbwyntio ar y trefniadau fydd eu hangen er mwyn sicrhau bod dysgu yn cael ei gyflenwi i bobl ifanc ac oedolion. Bydd y broses o gontractio a'r trefniadau cyflenwi yn cael eu datblygu i sicrhau cwricwlwm eang o ansawdd uchel; er mwyn sicrhau integreiddio gwaith y sector hwn yn llawn â darparwyr dysgu eraill sydd ar hyn o bryd yn cynllunio ac yn gweithredu newid rhwydwaith yng ngoleuni'r polisiâu Trawsnewid a Llwybrau Dysgu 14-19.

### **Datblygu Cynaliadwy a Newid yn yr Hinsawdd**

33. Wrth weithredu'r polisi Trawsnewid a datblygu'r cynigion a dderbyniwyd, y nod yw sicrhau nad yw'r trefniadau rhwydwaith yn cynyddu amser teithio at ddysgu yn ddiangen. Lle bo'n bosibl, dylai'r trefniadau rhwydwaith newydd fod yn niwtral o ran ôl troed carbon neu dylent ostwng yr ôl troed carbon. Ymhellach, bydd achosion busnes ar gyfer trawsnewid yn cael eu hasesu gyda golwg ar allyriadau carbon a rheoli teithio er mwyn sicrhau fod y dadansoddiad o opsiynau yn dangos ystyriaeth o'r effaith ar deithio dysgwyr yn ystod y dydd.
34. Caiff Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) ei ddefnyddio i asesu cynigion sydd angen buddsoddiad cyfalaf, gan sicrhau ystyriaeth lawn i arferion gorau mewn cynllunio a rheoli amgylcheddol.
35. Lle bo'n briodol, bydd Partneriaethau Dysgu yn cael eu hannog i archwilio'r defnydd o dechnolegau modern a'r defnydd o fynediad symudol ac o bell er mwyn gwella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a hyblygrwydd dysgu.

## Cyllido Gweithredu Trawsnewid

36. Ni ddisgwylir i'r broses o weithredu'r newidiadau a gynigir mewn ymateb i'r polisi Trawsnewid fod yn gost-niwtral, a bydd angen gwariant i sicrhau newidiadau llwyddiannus i siâp, ffurf a rheolaeth cyflenwi dysgu ym mhob rhwydwaith.
37. Ni fydd angen cyllid refeniw parhaus ar y mwyafrif o gynigion; er enghraifft, os yw ysgolion a cholegau'n bwriadu gweithio'n ffurfiol mewn partneriaeth, mae trefniadau o'r fath yn debyg o fod yn gost-niwtral, neu angen buddsoddiad cymedrol ar y mwyafrif i sefydlu trefniadau llywodraethu cydweithredol<sup>7</sup>. Bydd angen cyllid i gynnal ymarferion diwydrwydd dyledus ar unrhyw newidiadau cymhleth, megis uniadau; a gydag integreiddio rhwydwaith llawn, bydd angen cyllid i gefnogi costau cynllunio ac adeiladu unrhyw adeiladau newydd. Disgwylir y bydd y costau refeniw yn gysylltiedig â gweithredu'r polisi Trawsnewid yn fforddiadwy o fewn cyllideb Buddsoddi Strategol APADGOS.
38. I'r cynigion hynny lle mae angen buddsoddiad cyfalaf ar gyfer gweithredu, mae'n bosibl y bydd cyllid ychwanegol ar gael o gyllidebau cyfalaf APADGOS. Bydd unrhyw waith o'r fath yn ychwanegol i hwnnw a wneir gan dîm rhaglen Cyfalaf Ysgolion ar gyfer y 21ain Ganrif APADGOS, ac yn ei ategu. Ymhellach, lle bydd cynlluniau ar gyfer gweithgaredd trawsnewid sylweddol, bydd buddsoddiad cyfalaf yn cael ei geisio oddi wrth y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol.
39. Lle bydd angen buddsoddiad cyfalaf, bydd angen datblygu achosion busnes i gydymffurfio â gofynion Model Pum Achos Trysorlys EM, fydd yn sicrhau fod cyfleoedd buddsoddi yn cael eu huchafu. Bydd alinio amserlenni buddsoddi â chyllid cyfalaf sydd ar gael a gwireddu economïau graddfa yn y dyfodol yn nhermau caffael gweithgaredd cynllunio, cynllunio ac adeiladu, yn cael ei hwyluso drwy gysylltiadau clos ag Adran yr Economi a Thrafnidiaeth er mwyn sicrhau fod cyllid cyhoeddus yn cefnogi blaenoriaethau dysgu ac adfywio Llywodraeth y Cynulliad.
40. Mae nifer o brosiectau eisoes wedi nodi angen am fuddsoddi cyfalaf a bydd angen rhywfaint o gefnogaeth ar randdeiliaid wrth fynd i'r afael â'r elfen hon, gan gynnwys alinio buddsoddi ag unrhyw ofynion aildrefnu statudol; canfod ffynonellau cyllid a chyflwyno ceisiadau i APADGOS am gyfraniad cyllido. Mae swyddogion yn gweithio ar draws ystod o feysydd APADGOS i ddatblygu cynllun Buddsoddi Cyfalaf 10-15 mlynedd amlinellol ac yn cyfarfod â rhanddeiliaid y mae eu cynlluniau cychwynnol yn nodi angen am gyfalaf sylweddol er mwyn trafod y gweithgarwch.
41. Nid yw'r polisi Trawsnewid yn rhagnodol yn nhermau modelau penodol i'w mabwysiadu; ac roedd y protocolau yn gwahodd y darparwyr eu hunain i gytuno a chyflwyno cynigion ar gyfer newidiadau ôl-16 i APADGOS. Roedd y cynigion trawsnewid, a gyflwynwyd gan randdeiliaid yn gynharach yn 2009,

---

<sup>7</sup> Sefydlwyd dan Reoliadau Trefniadau Cydlafurio (Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach) (Cymru) 2008

yn amlinellu cyfeiriad cynlluniau ardaloedd daearyddol neu sectorau penodol, gan nodi eu dewis fodel i'w ddatblygu. Mae'n debyg y bydd angen gwaith ymchwil a dichonolrwydd pellach i ddatblygu'r cynlluniau amlinellol hyn cyn ac yn ystod y broses weithredu.

42. Bydd datblygu cynlluniau gweithredu manwl, fydd yn cydymffurfio â gofynion Model Pum Achos y Trysorlys, yn datgelu'r graddau y bydd yr achos dros newid yn cael ei wneud yn nhermau gwelliannau i effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a hyblygrwydd y dysgu. Disgwylir i'r Partneriaethau Dysgu gyflwyno'r cynlluniau manylach hyn i APADGOS ym mis Rhagfyr 2009.
43. Lle bo angen ymchwilio'r heriau sydd ymhlyg yng ngweithrediad newid trawsnewidiol drwy weithgaredd a gomisiynir yn ganolog, mae hyn yn cael ei drefnu er mwyn sicrhau canlyniadau o ansawdd uchel a chyflenwi'r gwerth gorau am arian. I'r perwyl hwn, pan fydd y cynlluniau trawsnewid manylach yn cael eu cyflwyno ym mis Rhagfyr 2009, bydd gwaith yn cael ei gomisiynu i ddadansoddi'n llawn y manteision y bydd pob model trawsnewid yn eu sicrhau yn nhermau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a hyblygrwydd cyflenwi. Ymhellach i ganlyniadau'r astudiaeth hon mae'n bosib y bydd angen arweiniad a chymorth ychwanegol i ganiatáu i randdeiliaid wireddu'r buddion y mae'n rhaid i newid trawsnewidiol eu cyflawni.

#### **Llwyddiannau - Crynodeb o Ganlyniadau Blwyddyn 1**

44. Nid oes unrhyw awdurdod lleol, ysgol uwchradd, coleg addysg bellach a darparwr dysgu seiliedig ar waith nad yw'n cael ei effeithio gan ofynion y polisi Trawsnewid ac yn gyffredinol mae'r polisi a'r fframwaith wedi cael derbyniad da ar draws y sectorau a thrwy Gymru gyfan.
45. Nodir tair lefel o ymateb:
  - lle mae'r rhanddeiliaid yn ymrwymedig i'r status quo ac yn gymharol anfodlon rhoi anghenion dysgwyr o flaen buddiannau sefydliadol, mae cyhoeddi'r polisi a'r fframwaith trawsnewid ar y lleiaf wedi ysgogi trafodaeth ac egin gynllunio ar gyfer gwella dulliau cyflenwi dysgu;
  - lle mae'r darparwyr a rheolwyr darparu wedi bod yn barod i fynd i'r afael â gwendidau cyflenwi a chymryd camau mwy radical i ymdrin â'r angen am newid, mae'r polisi wedi darparu fframwaith cenedlaethol o gefnogaeth a mynediad at adnodd refeniw i uchafu'r tebygrwydd o gyflawni canlyniadau llwyddiannus; ac
  - yn olaf, lle'r oedd cynlluniau lleol eisoes ar waith, mae'r polisi wedi ysgogi rhanddeiliaid i wneud cynnydd ac uchafu cyfleoedd buddsoddi.
46. Wedi dweud hynny, yn amlwg nid yw'r holl gynigion a chynlluniau lleol a sectoraidd wedi'u datblygu i'r un graddau. Er enghraifft mae nifer o awdurdodau lleol a darparwyr addysg bellach ac uwch wedi bod yn datblygu cynlluniau amlinellol ar gyfer newid dros nifer o flynyddoedd. Yma mae lansio'r polisi trawsnewid a chefnogaeth ddilynol swyddogion Llywodraeth y

Cynulliad wedi hwyluso ffocws cynllunio cydlynol; wedi helpu i sicrhau cyllid buddsoddi cyfalaf a chyflymu'r amserlen ar gyfer gweithredu'n llawn.

## Y Camau Nesaf

47. Mewn achosion lle mae'r Partneriaethau Dysgu ar gyfnod cynnar yn eu datblygiad, gyda'r model cymeradwy yn syml i'w weithredu, ar y lleiaf dylid cyflwyno Cynlluniau Strategol Amlinellol i'w cymeradwyo a dylai gweithredu ddechrau erbyn mis Ionawr 2010. Nid oes fawr o amheuaeth fod angen cefnogaeth ar Bartneriaethau Dysgu ar gyfer datblygu cynlluniau newid ymhellach a'u gweithredu yn amserol. Er mwyn cynorthwyo â'r gweithredu bydd APADGOS yn sicrhau fod swyddog cyswllt yn cael ei enwebu i gynorthwyo pob Partneriaeth Dysgu i sicrhau gweithredu llawn.
48. Mewn achosion lle mae'r trefniadau yn fwy cymhleth, lle mae newid radical yn cael ei gynllunio a'i ddatblygu, mae amserlenni gweithredu unigol yn cael eu cytuno gyda'r Partneriaethau Dysgu. Bydd hyn yn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r amser sydd ei angen ar gyfer datblygu achos cadarn dros newid, cynnal y gweithgaredd statudol perthnasol a chadarnhau cymorth cyllido i sicrhau gweithredu.
49. Er mwyn sicrhau gweithredu prosiectau a rhaglenni unigol yn llwyddiannus bydd angen cydlynu gweithgaredd ar draws APADGOS a sicrhau cysylltiadau ag Adrannau eraill sy'n gyfrifol am faterion megis datblygu economaidd, adfywio a llywodraeth leol.
50. Cynllunnir y bydd adroddiad statws, *Trawsnewid, Y Siwrnai*, yn cael ei gyhoeddi tua diwedd mis Hydref 2009; bydd hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn gyntaf y polisi. Bydd yn canolbwyntio ar sbarduno ac annog newid gan amlinellu gweithgaredd disgwylidig yn ystod y cyfnod dilynol o ddwy flynedd.
